# CYDAROLYGIAD O FYRDDAU LLEOL DIOGELU PLANT YNG NGHYMRU

**Hydref 2011**

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol 3

Adran Un
Cyflwyniad a Chefndir 11

Adran Dau
Canfyddiadau 15

Atodiad Un

Fframwaith polisi a deddfwriaeth 34

# Crynodeb Gweithredol

1. Mae diogelu plant a phobl ifanc a'u hamddiffyn rhag niwed yn hollbwysig i ddyfodol a lles ein cymdeithas.

2. Elfen graidd o Ddeddf Plant 2004 oedd y gofyniad i bob awdurdod lleol sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer ei ardal. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar asiantaethau penodol i

   *(a) gydgysylltu'r hyn a wneir gan bob unigolyn neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd at ddibenion diogelu a hybu lles plant yn yr ardal yr awdurdod lleol y'i sefydlwyd ganddo*

   *(b) sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan bob unigolyn neu gorff at y dibenion hynny*

3. Roedd 19 BLlDP yn gweithredu yng Nghymru ar adeg yr arolygiad hwn.

## Diben yr adolygiad

4. Yn 2008 rhoddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn (Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP), ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ymrwymiad eglur i ddarparu'r adnoddau ar gyfer cynnal cydarolygiad cenedlaethol o'r BLlDPau er mwyn atgyfnerthu'r dull amlasiantaeth o ymdrin â diogelu ac amddiffyn plant. O ganlyniad, cynhaliwyd rhaglen sylweddol o waith gan yr arolygiaethau i ddatblygu fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant.

5. Roedd yr arolygiad yn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r BLlDPau gan ddefnyddio fframwaith yr offeryn hunanasesu a gwella (SAIT) a gomisiynwyd gan AGGCC. Datblygwyd yr offeryn hwn gan ymchwilwyr annibynnol a chynhaliwyd cynlluniau treialu gan saith BLlDP. Cytunwyd ar

feincnodau a disgrifyddion cenedlaethol ar gyfer mesur perfformiad y BLlDPau yn 2008.

## Prif Ganfyddiadau

6. Gwnaed llawer iawn o waith yn genedlaethol ac ar lefelau lleol ers cyhoeddi adroddiad ymchwiliad yr Arglwydd Laming i farwolaeth Victoria Climbié yn 2003, ac mae newidiadau sylweddol wedi digwydd yn ddeddfwriaethol, yn drefniadaethol ac o ran arfer. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gasglwyd ynghyd o ddata perfformiad ac arolygiadau blaenorol yn dangos bod plant yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn well bellach nag yr oeddent cyn y newidiadau a gyflwynwyd yn dilyn adroddiad yr Arglwydd Laming.

7. Mae sefydliadau, rheolwyr, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau statudol yn gweithio'n galed yn unigol ac ar y cyd i gyflawni'r gwaith anodd, cymhleth a beichus iawn o ddiogelu ac amddiffyn plant.

8. Er gwaethaf hyn, mae canfyddiadau'r cydarolygiad hwn yn dangos nad yw'r BLlDPau yn gyffredinol yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol fel y'u nodir yn Adran 31 (1) o Ddeddf Plant 2004. Yn sylfaenol, maent yn ei chael yn anodd dangos sut y maent yn gwella canlyniadau ar gyfer plant. Nid oes un esboniad syml ar gyfer y sefyllfa hon gan fod llawer o ffactorau sy'n cyfrannu tuag at lwyddiant neu fethiant y BLlDPau.

9. Mae'r arolygiad hwn wedi nodi saith ffactor allweddol sy'n cyfrannu tuag at effeithiolrwydd y BLlDPau ac y mae angen ymdrin â hwy er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yng Nghymru ymhellach. Maent wedi eu nodi isod.

## Arweinyddiaeth

10. Sefydlwyd BLlDPau i gydgysylltu gwaith sefydliadau a gweithwyr proffesiynol o ran diogelu a hybu lles plant a phobl ifanc, ac i sicrhau bod y gwaith hwnnw'n effeithiol. Er hynny, nid oes ganddynt y grym i orchymyn iddynt weithredu. O ganlyniad, ni all BLlDPau ond sbarduno newid a gwelliant pan fo'u holl aelodau yn rhannu ymrwymiad a chyfrifoldeb ar y cyd. Er bod y cyfrifoldeb am sefydlu BLlDPau a'u gweithredu'n effeithiol yn nwylo'r awdurdod lleol, mae'n hanfodol bod y sefydliadau partner statudol yn rhannu ymrwymiad i arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Mae gan gadeirydd y BLlDP swyddogaeth allweddol yn hyn o beth. Nid oes tystiolaeth yng Nghymru bod arweinyddiaeth nac ymrwymiad y sefydliadau sy'n aelodau wedi gwella pan fo cadeirydd annibynnol wedi ei benodi. Mae'n hanfodol i lwyddiant y BLlDP y sicrheir arweinyddiaeth effeithiol, ond nid yw'r trefniadau presennol yn darparu hyn yn gyson.

## Llywodraethu ac Atebolrwydd

11. Mae *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* yn nodi'r canlynol:

- Dylai pob awdurdod lleol gymryd y cyfrifoldeb pennaf am sefydlu BLlDP a'i weithredu'n effeithiol, ond mae'r holl asiantaethau sy'n brif aelodau yn gyfrifol am gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at waith y BLlDP.

- Rhaid i'r BLlDPau fod yn atebol am eu gwaith i'r asiantaethau sy'n brif aelodau ohonynt, ac mae'n ofynnol i'r asiantaethau hyn gytuno i'r holl waith sydd â goblygiadau o ran polisi, cynllunio a dyrannu adnoddau.

- Dylid cytuno a chymeradwyo rhaglenni gwaith BLlDPau ar lefel uwch ym mhob un o'r asiantaethau sy'n brif aelodau ohonynt, o fewn fframwaith y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

12. Canfu’r arolygiad nad yw BLlDPau yn atebol yn ymarferol i gyrff statudol nac asiantaethau partner nac yn cael eu dwyn i gyfrif ganddynt. Nid oes dulliau lleol wedi eu sefydlu i sefydliadau allanol graffu ar waith y BLlDPau. Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o her effeithiol o fewn y BLlDPau. Nid yw’r BLlDPau yn gallu dangos eu bod yn gallu dwyn asiantaethau partner a statudol i gyfrif yn effeithiol. Mae’n anodd gweld sut y gellir gwneud gwelliannau i’r BLlDPau heb ymdrin â’r materion llywodraethu ac atebolrwydd yn eglur.

**Cyfeiriad Strategol**

13. Roedd y rhan fwyaf o’r BLlDPau wedi sefydlu eu bwriad strategol, eu nodau lefel uchel a’u hamcanion. Fodd bynnag, canfu’r arolygiad nad oedd fawr o dystiolaeth yn aml bod gan aelodau neu bartneriaethau eraill ddealltwriaeth gyffredin ynglŷn â’r cyfeiriad strategol a gweithgarwch cysylltiedig. Hefyd, roedd yn anodd gweld sut yr oedd safbwyntiau plant, pobl ifanc, ymarferwyr ac eraill yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol y BLlDPau ac yn ei dro, sut yr oedd y cyfeiriad strategol yn dylanwadu ar arferion gwaith. O ystyried bod y gwaith rheoli perfformiad yn gyfyngedig ac nad yw dinasyddion yn cael eu cynnwys yn effeithiol, rhaid gofyn sut y mae BLlDPau yn gallu teimlo’n hyderus eu bod wedi pennu’r cyfeiriad strategol cywir.

**Strwythurau**

14. Mae BLlDPau yn gweithredu o fewn fframwaith cymhleth o bartneriaethau a strwythurau trefniadaethol. Mae’r rhain yn cynnwys Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Byrddau Gwasanaethau Lleol; pedwar awdurdod heddlu, saith Bwrdd Iechyd Lleol a 22 o awdurdodau lleol. Ar un llaw, canlyniad hyn yw bod llawer o’r un bobl yn aelodau o fwy nag un bartneriaeth, sy’n gallu golygu bod cyfrifoldebau’r partneriaethau’n mynd yn aneglur (e.e. rhai Partneriaethau Plant a Phobl

Ifanc yn cymryd y cyfrifoldeb am ddiogelu). Ar y llaw arall, gall ystod o wahanol bobl o un asiantaeth gael eu cynnwys mewn partneriaethau gwahanol heb iddi fod yn eglur o gwbl sut yr ymdrinnir â'r materion sy'n gyffredin rhyngddynt. Gan gydnabod hyn, un o argymhellion *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* oedd y dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu Grŵp Cydgysylltu Strategol yn ardal pob awdurdod lleol i oruchwylio gweithrediad strategol y BLlDPau a'r trefniadau partneriaeth. Ni wnaed hyn yn orfodol, fodd bynnag. Sefydlwyd y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn dilyn hyn, ac mae'n bosibl bod hynny wedi arwain at y farn ymhlith rhai carfannau y gallai neu dylai'r Byrddau Gwasanaethau Lleol gyflawni'r swyddogaeth hon. Gwelwyd peth tystiolaeth o waith partneriaeth da ynghyd â pheth dryswch ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau ymhlith y partneriaid a'r partneriaethau. Mae'r dystiolaeth o'r arolygiad hwn yn awgrymu bod angen symleiddio trefniadau partneriaeth a'u gwneud yn fwy eglur.

**Ariannu**

15. I weithredu'n effeithiol, mae angen i'r BLlDPau dderbyn digon o adnoddau, a'r rheiny'n ddibynadwy. Mae Deddf Plant 2004 yn rhoi rhwymedigaeth ar bartneriaid BLlDPau statudol i gefnogi gweithrediad y BLlDP un ai trwy ei ariannu'n uniongyrchol neu drwy ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill. Mae sefydliadau sy'n aelodau o'r BLlDP, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am benderfynu pa adnoddau sydd eu hangen a sut y'u darperir. Yn ymarferol, ychydig o BLlDPau a oedd wedi cytuno ar ddulliau cyllidebu a fformiwlâu ariannu priodol ar gyfer y tymor hir. Roedd llawer ohonynt yn dibynnu'n ormodol ar yr awdurdod lleol i ariannu eu gweithgareddau. Mae hyn yn anghynaliadwy ac yn atgyfnerthu ymhellach y camsyniad mai'r awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am y BLlDPau. Mae trefniadau ariannu'r BLlDPau wedi bod yn ffynhonnell tensiwn a dadlau ers eu creu a chadarnhaodd yr arolygiad hwn fod hyn yn parhau i fod yn wir. Er mwyn i BLlDPau weithredu'n effeithiol mae angen sefydlu trefniadau sicr sy'n gofalu y

darperir lefelau arian ac adnoddau priodol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau.

**Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd**

16. Ychydig o dystiolaeth a welwyd i ddangos bod y BLlDPau yn casglu gwybodaeth a data ystyrlon am ganlyniadau. Ni cheir llinell eglur rhwng y BLlDP a'r ymarferwr rheng flaen ac i'r gwrthwyneb. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â sut y mae gwaith y BLlDP yn effeithio ar ganlyniadau diogelu i blant a phobl ifanc. Heb y wybodaeth hon, mae'n anodd penderfynu a yw amcanion strategol y BLlDP yn cael eu cyflawni, neu ai'r rhain yw'r amcanion cywir. Gan na cheir fframwaith canlyniadau ag amcanion a cherrig milltir eglur a chyffredin, mae'r BLlDPau yn ei chael yn anodd iawn gwerthuso a chyflwyno tystiolaeth am effaith eu gwaith er lles plant a phobl ifanc.

17. Er bod gan yr holl BLlDPau drefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau achos amlasiantaeth, mae ansawdd y rhain yn wael yn gyffredinol. Nid oeddynt bob amser yn rhai amlasiantaeth, ac yn y rhan fwyaf o'r achosion nid oeddynt yn nodi'r materion diogelu'n llawn. Roedd y trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r BLlDP yn wan ac ychydig o dystiolaeth a welwyd y câi'r adroddiadau hyn eu herio. Nid yw'r archwiliadau achos yn galluogi'r BLlDPau i nodi arfer gorau nac arfer gwael er mwyn diogelu ac amddiffyn plant yn well.

18. Er bod hyfforddiant amlasiantaeth yn nodwedd gref yn y BLlDPau, ychydig o dystiolaeth a welwyd bod hwn yn cael ei werthuso'n llym i sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant ar y lefel briodol yn unol â'u hanghenion a'u cyfrifoldebau proffesiynol.

**Ymgysylltu â Dinasyddion – Ymgysylltu â phlant, pobl ifanc ac eraill**

19. Er bod yr arolygiad wedi nodi peth arfer arloesol o ran ymgysylltu â dinasyddion, ychydig iawn o dystiolaeth a ganfuwyd o ddulliau cynhwysfawr o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'r cymunedau ehangach. Mae gan asiantaethau unigol ystod o ddulliau o ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau lleol, ond gyda'i gilydd fel BLlDPau, mae hwn yn parhau i fod yn faes sydd angen ei ddatblygu. Yn absenoldeb prosesau ymgysylltu o'r fath, mae'n anodd i'r BLlDPau ddangos i ddinasyddion sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae'n hanfodol i'r BLlDPau ymgysylltu â dinasyddion yn effeithiol er mwyn iddynt allu dangos bod eu gwaith yn diwallu anghenion cymunedau lleol, a'u bod yn gwneud y pethau priodol, yn y modd cywir, i'r bobl iawn ac ar yr adeg iawn.

## Crynodeb

20. Sefydlwyd y BLlDPau yn 2006 a chyflawnwyd llawer o weithgarwch ers hynny i'w datblygu a'u hadeiladu. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r arolygiad hwn yn dangos nad yw BLlDPau, er gwaethaf hyn, yn gallu dangos yn effeithiol hyd sut y maent yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc o ran diogelu a hybu eu lles. Nid yw hyn yn golygu nad yw sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn diogelu ac yn amddiffyn plant, ac nid yw'n golygu ychwaith nad yw gwaith y BLlDPau yn cael effaith ar ganlyniadau diogelu i blant. Mae'n golygu nad ydynt yn gallu dangos tystiolaeth eglur o effaith eu gwaith.

21. Er mwyn i BLlDPau fod â'r brif swyddogaeth o ran diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc, rhaid iddynt allu dangos yn eglur sut y mae eu gwaith yn arwain at ddiogelu ac amddiffyn plant yn well.

22. Os yw'r BLlDPau yn mynd i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol i ddiogelu a hybu lles plant, mae angen ymdrin â chanfyddiadau'r arolygiad hwn ar lefel genedlaethol a lleol.

23. Mae angen cyfeiriad strategol eglur ar lefel genedlaethol gydag amcanion a chanlyniadau sydd wedi eu diffinio’n eglur, ac sydd hefyd yn hwyluso’r broses o wneud penderfyniadau yn lleol er mwyn diwallu anghenion plant yn eu cymunedau lleol. Rhaid galluogi BLlDPau i ddefnyddio adnoddau, sgiliau proffesiynol a gwybodaeth yr holl asiantaethau ar y cyd wrth ddiogelu ac amddiffyn plant. Hefyd, rhaid iddynt fod yn atebol am eu gwaith i’r cymunedau lleol ac yn genedlaethol, a hynny’n eglur ac yn gyhoeddus.

## Adran Un: Cyflwyniad a chefndir

### Cyflwyniad

24. Mae'r adroddiad cyffredinol hwn yn cyflwyno canfyddiadau cydarolygiad cenedlaethol o Fyrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDPau) a oedd yn cynnwys ymweliadau gwaith maes â saith BLlDP gan arolygwyr o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn (swyddfa Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP), ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) rhwng mis Tachwedd 2010 a mis Mawrth 2011.

25. Elfen graidd o Ddeddf Plant 2004 oedd y gofyniad bod pob awdurdod lleol yn sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer ei ardal. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswyddau ar asiantaethau penodol:

    - Gwasanaethau plant awdurdodau lleol;
    - Byrddau Iechyd Lleol;
    - Ymddiriedolaethau GIG;
    - Gwasanaethau Heddlu;
    - Gwasanaethau Prawf;
    - Timau Troseddau Ieuenctid

    *(a) i gydgysylltu'r hyn a wneir gan bob unigolyn neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd at ddibenion diogelu a hybu lles plant yn ardal yr awdurdod y'i sefydlwyd ganddo*

    *(b) i sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan bob unigolyn neu gorff at y dibenion hynny*

### Cefndir yr arolygiad

26. Ar ôl cyflwyno'r BLlDPau ym mis Hydref 2006, rhoddodd AGGCC, AGIC, Estyn, HMIP, a HMIC ymrwymiad eglur i ddarparu'r adnoddau ar gyfer cynnal cydarolygiad cenedlaethol o BLlDPau i atgyfnerthu'r dull amlasiantaeth o ddiogelu ac amddiffyn plant. O ganlyniad, cynhaliwyd rhaglen sylweddol o waith gan yr holl arolygiaethau i

ddatblygu fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant.

27. Y cam cyntaf oedd datblygu offeryn hunanasesu a gwella (SAIT) ar sail tystiolaeth ar gyfer BLlDPau yng Nghymru. Diben hwn oedd darparu:

- dull i'r BLlDPau werthuso eu perfformiad eu hunain
- disgrifyddion ar y cyd ar gyfer gweithredu'r BLlDPau
- sylfaen ar gyfer arolygiadau amlasiantaeth o'r BLlDPau

28. Comisiynwyd yr offeryn hunanasesu a gwella gan AGGCC. Fe'i datblygwyd gan ymchwilwyr annibynnol a chynhaliwyd cynlluniau treialu gan saith BLlDP. Cytunwyd ar feincnodau a disgrifyddion cenedlaethol ar gyfer mesur perfformiad BLlDPau yn 2008.

29. Ym mis Tachwedd 2008, ar ôl marwolaeth y baban Peter Connelly yn Haringey, cymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfres o gamau i werthuso a oedd y trefniadau sydd wedi eu sefydlu yng Nghymru yn ddigonol i ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yng Nghymru. Fel rhan o'r camau hyn, gofynnwyd i gadeiryddion BLlDPau ddarparu asesiad o effeithiolrwydd eu Byrddau erbyn mis Chwefror 2009. Gwerthuswyd a phrofwyd yr asesiadau hyn yn ddiweddarach gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) trwy ymweld â phob awdurdod lleol a BLlDP yng Nghymru[1].

30. Lansiwyd yr offeryn hunanasesu a gwella yn ffurfiol ym mis Mai 2009 gan ddarparu safon gyffredin i bawb y gellid ei defnyddio wrth fesur gwaith pellach.

31. Lluniwyd adroddiad ar sail canfyddiadau ymweliadau AGGCC ag awdurdodau lleol yn ystod 2009: '*Diogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru: adolygiad o Awdurdodau Lleol a Byrddau Lleol Diogelu Plant'.* Fe'i cyhoeddwyd gan AGGCC ym mis Hydref 2009.

---

[1] Diogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru: Adolygiad o Awdurdodau Lleol a Byrddau Lleol Diogelu Plant [mis Hydref 2009]

32. Yn gyffredinol, canfu'r adroddiad nad oedd y Byrddau unigol wedi datblygu ar yr un cyflymder, er bod sail statudol eglur iddynt. Roedd nifer ohonynt heb sicrhau cyfranogiad yr holl asiantaethau perthnasol na chyfranogiad ar lefel ddigon uchel o fewn asiantaethau i wneud penderfyniadau. Ni welwyd ychwaith unrhyw dystiolaeth y cysylltir effeithiolrwydd y BLlDP ac ansawdd yr arfer diogelu, er mai dyma oedd eu prif ddiben. Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r BLlDPau unrhyw ddull o werthuso sut yr oedd gwaith y Bwrdd yn gwella canlyniadau i blant.

**Methodoleg ar gyfer y cydarolygiad o'r BLlDPau**

33. Roedd canfyddiadau arolygiad AGGCC yn 2009 ynghyd ag adroddiadau arolygu eraill yn darparu tystiolaeth sylfaen ynglŷn ag aeddfedrwydd y BLlDPau a'r heriau sy'n eu hwynebu. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon wrth bennu paramedrau'r cydarolygiad yn 2011.

34. Yn 2010 dychwelodd pob BLlDP hunanwerthusiad wedi ei lenwi gan ddefnyddio'r offeryn hunanasesu a gwella. Roedd angen i'r BLlDPau asesu eu gwaith o'i gymharu â phum parth:

- Gwella canlyniadau diogelu i blant
- Sefydlu cyfeiriad strategol y Bwrdd
- Sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol
- Cynyddu gallu
- Cyflawni allbwn

35. Nodir yn yr offeryn hunanasesu a gwella bod y rhain yn allweddol er mwyn gweithio ar y cyd yn effeithiol i ddiogelu plant mewn partneriaethau strategol amlddisgyblaethol.

36. Cynhaliwyd arolygiad peilot o BLlDP ym mis Tachwedd 2010, a rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2011 cynhaliodd tîm o arolygwyr o AGGCC, AGIC, Estyn, HMIP ac HMIC ymweliadau safle â chwe BLlDP arall.

*37.* Roedd yr ymweliadau safle yn canolbwyntio ar ddilysu hunanwerthusiadau'r BLlDPau a'r camau a gymerwyd gan awdurdodau i sefydlu BLlDP effeithiol yn unol â chanllawiau

Llywodraeth Cymru *Diogelu Plant – Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.*

38. Roedd yr ymweliadau safle gan yr arolygwyr yn parhau am gyfnod o dri diwrnod ac roeddynt yn cynnwys arsylwi mewn cyfarfod o'r BLlDP, a chyfweld cadeirydd ac is-gadeirydd y Bwrdd, aelodau statudol ac anstatudol, a chynghorwyr proffesiynol ynghyd â chadeiryddion y partneriaethau eraill.

39. Craffodd yr arolygwyr ar samplau o achosion a archwiliwyd gan y BLlDP, gan olrhain cyfraniad a swyddogaeth pob asiantaeth dan sylw. Pwyslais y gweithgaredd hwn oedd gweld sut yr oedd y Bwrdd yn barnu ynglŷn ag arferion diogelu amlasiantaeth, ynglŷn â faint o le sydd i herio arferion proffesiynol er mwyn dysgu gwersi, ac ynglŷn â sut yr oedd hyn yn gwella ac yn llywio arferion gwaith yn y rheng flaen.

## Adran Dau : Canfyddiadau

Rhoddwyd y prif ganfyddiadau mewn grwpiau dan y pum parth a werthuswyd gan yr arolygiaethau.

### 1. Hunanasesu

1.1 Nodwyd yn y cydarolygiad bod elfennau o 'hunanasesiad' y BLlDPau o'u heffeithiolrwydd eu hunain yn rhy optimistaidd. Roedd yn amlwg bod gwaith sylweddol yn parhau i gael ei wneud yn ardal pob BLlDP yr ymwelwyd â hi. Roedd lefel o ewyllys da ac ymrwymiad i waith partneriaeth wedi ei sefydlu, ond roedd y gwaith hwn yn amrywio yn ymarferol. Nid oedd yr hunanasesiad yn ddigon trylwyr mewn rhai ardaloedd.

1.2 Barnwyd yn gyffredinol bod yr offeryn hunanasesu a gwella yn ddefnyddiol wrth sicrhau ei bod yn eglur beth yw'r elfennau hanfodol ar gyfer gwaith partneriaeth. Fodd bynnag, amlygwyd, wrth ddilysu'r hunanasesiadau, nad oedd nifer o'r BLlDPau wedi sefydlu'r hunaniaeth gref sydd ei hangen er mwyn sicrhau partneriaethau strategol amlddisgyblaethol, yn gweithio tuag at ddiogelu plant.

### 2. Gwella canlyniadau diogelu i blant

2.1 Nid oedd y BLlDPau yn gallu darparu tystiolaeth o sut yr oedd eu gwaith yn gwella canlyniadau diogelu i blant. Roedd eu gwybodaeth ansoddol a meintiol ynglŷn â chanlyniadau diogelu yn gyfyngedig iawn, ac roedd y gwaith a wneid ganddynt i fesur perfformiad yn wan. Nid oedd y rhan fwyaf o'r BLlDPau wedi disgrifio na nodi unrhyw fesurau canlyniadau penodol (a fyddai'n ansoddol fel arfer). Er gwaethaf y data a oedd ar gael, ni cheir fawr o wybodaeth am ganlyniadau. Pan oedd gwybodaeth ar gael, ychydig iawn o ddadansoddi a wnaed. Nid oedd yn ddigon eglur

pa ganlyniadau y byddid yn eu dymuno o'r gwaith na sut i fesur canlyniadau gwell. Roedd y BLlDPau yn gallu nodi allbwn asiantaethau unigol ac ar y cyd, ond nid oeddynt yn gallu cysylltu hyn â gwelliannau i'r canlyniadau diogelu ac amddiffyn i'r plant sy'n derbyn gwasanaethau. Nid oeddynt ychwaith yn gallu darparu tystiolaeth ynglŷn â sut yr oedd eu gwaith gyda phartneriaethau eraill yn gwella diogelwch i bob plentyn. Mae hwn yn wendid sylfaenol ac er bod yr holl Fyrddau yn pwysleisio eu hymrwymiad i weithio gyda'i gilydd ar ganlyniadau cyffredin, nid oedd yn eglur sut yr oeddent yn bwriadu cyflawni hyn. Nododd llawer o'r Byrddau y byddent yn croesawu datblygiad fframwaith canlyniadau cenedlaethol i'w cefnogi yn eu gwaith.

2.3 Roedd rhai Byrddau wedi nodi grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yr oeddynt wedi eu blaenoriaethu, ond roedd y gweithgaredd hwn yn aml wedi ei sbarduno gan ryw ddigwyddiad penodol ac nid oedd yn rhan o strategaeth eglur y cytunwyd arni. Gwelwyd rhai enghreifftiau o waith da wrth geisio gwella canlyniadau i blant mewn grwpiau penodol. Roedd un BLlDP wedi cynnal adolygiad o'r plant ar y gofrestr er mwyn sefydlu cyfradd yr ailgofrestru o fewn cyfnod byr o amser. Fe wnaeth hyn amlygu sawl mater pwysig o ran arfer a pholisi ar gyfer asiantaethau statudol. Mewn enghraifft arall, roedd Bwrdd wedi archwilio'r datganiadau ystadegol ynglŷn ag achosion o drais domestig, gan ddarganfod bod asiantaethau wedi nodi lefelau uchel o ymosodiadau trais domestig ar fenywod beichiog. Roedd hyn wedi herio'r Bwrdd i ail-archwilio rhai o'r polisïau a'r arferion ar draws yr asiantaethau a oedd yn ymwneud â'r grwpiau hyn a nodwyd.

2.4 Roedd rhai o'r BLlDPau wedi ceisio nodi'r gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun gweithdrefnau a chynlluniau amddiffyn plant. Ond roedd y wybodaeth a ystyriwyd yn aml yn berthnasol i'r broses a'r allbwn yn unig, yn hytrach na'r canlyniadau. Cesglir data ynglŷn ag un asiantaeth yn bennaf, gwasanaethau

cymdeithasol, ac ychydig iawn o wybodaeth a geir ynglŷn â phrofiad y defnyddwyr gwasanaeth. Gwelwyd tystiolaeth ar draws y BLlDPau bod gan wahanol asiantaethau wybodaeth ynglŷn ag ystod eang o blant a theuluoedd sy'n agored i niwed ond nad oedd yn cael ei dwyn at ei gilydd i greu sail i fframwaith canlyniadau cyffredin. Roedd rhai Byrddau yn ystyried datblygu model atebolrwydd ar sail canlyniadau ond roedd yn ymddangos mai dyddiau cynnar oedd hi i'r gwaith hwn ac nad oedd yr holl aelodau yn ei ddeall yn dda. Er nad oeddynt yn gallu darparu tystiolaeth ynglŷn â gwelliannau i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt i blant, adroddodd aelodau'r BLlDPau fod y broses o asiantaethau yn cyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd a chael cyfle i feithrin perthynas yn bwysig ynddi ei hun a'i fod yn fodd o wella arfer amlasiantaeth. Er y cydnabyddir pwysigrwydd y berthynas hon, ni chanfu'r arolygiad fawr o dystiolaeth o ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc o ran diogelu, i ategu hyn.

2.5 Nid oedd y BLlDPau wedi nodi sut yr oedd eu gwaith eu hunain na'r gwaith gyda phartneriaethau eraill yn sicrhau bod pob plentyn yn fwy diogel. Nid yw'r BLlDP yn gallu gwneud y gwaith hwn ar ei ben ei hun ac roedd y rhan fwyaf o'r Byrddau wedi cynnal diwrnodau datblygu gyda phartneriaethau eraill ynglŷn â'u swyddogaethau diogelu ei gilydd. Gwelwyd amrywiaeth sylweddol ar draws y Byrddau a rhwng aelodau'r Byrddau ynglŷn â'u dealltwriaeth o'r agenda ddiogelu ehangach, ac ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd i ddangos bod unrhyw BLlDP wedi mynd ymlaen hyd yn hyn i ddiffinio canlyniadau neu osod amcanion i sicrhau bod pob plentyn yn fwy diogel.

**Gwella Canlyniadau i Blant**

**Arfer da:**

- Nodwyd, mewn archwiliad a gynhaliwyd gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant Wrecsam, bod y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi gweithio'n galed i eirioli ar ran person ifanc 17 mlwydd oed o gefndir cythryblus ag anawsterau dysgu. Tynnwyd sylw'r gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion

at y ffaith ei fod yn agored i niwed a bod angen llety addas arno. Ar ôl iddo gael ei leoli mewn cartref sefydlog, cyfeiriwyd y ffeil fel 'achos o ddiddordeb arbennig' i'r BLlDP er mwyn gallu dysgu gwersi ac amlygu arfer da.

**Sicrhau ansawdd**

- Mae Bwrdd Diogelu Plant Caerffili wedi datblygu systemau i gasglu a dadansoddi data diogelu o ystod o ffynonellau.

- Mae Bwrdd Diogelu Plant Rhondda Cynon Taf yn defnyddio data perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol i blant ochr yn ochr â data arall o'r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Tîm Troseddau Ieuenctid a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i ddarparu rhai dangosyddion procsi fel modd o ddeall canlyniadau.

**3. Sefydlu cyfeiriad strategol y Bwrdd**

3.1 Nid oedd y BLlDPau yn ymwybodol iawn, os o gwbl, o arferion gwaith yn y rheng flaen. Roedd y dogfennau strategol yn tueddu i nodi dymuniadau ac uchelgeisiau, gan orbwysleisio gwaith asiantaethau unigol yn hytrach na dangos dealltwriaeth gyffredin a dull o weithredu ar y cyd. Roedd diffyg synergedd yn y BLlDP a phrin yr oedd y partneriaid yn ystyried bod ganddynt hunaniaeth ar y cyd fel Bwrdd. Nid oedd ganddynt bob amser ddealltwriaeth eglur a chyffredin ynglŷn â pha elfennau o ddiogelu yr oedd y BLlDP yn atebol amdanynt. Roedd rhai BLlDPau wedi nodi pa mor agored i niwed yr oedd rhai grwpiau penodol o blant ac roeddynt wedi datblygu gweithgareddau i ymdrin â'r rhain. Yn gyffredinol, roedd diffyg amcanion CAMPUS[2], a hynny'n cyfyngu ar y gallu i fesur unrhyw ddatblygiad neu gyrhaeddiad. Nid oedd yn eglur sut yr oedd partneriaid yn dwyn ei gilydd i gyfrif.

3.2 Roedd amrywiaeth sylweddol yn nealltwriaeth BLlDPau o'u cyfeiriad

[2] CAMPUS yw cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol.

strategol ar y cyd.  Roedd y rhan fwyaf o’r Byrddau wedi goramcangyfrif yr hyn yr oeddynt wedi ei gyflawni yn y maes hwn. Roedd y rhan fwyaf o’r Byrddau wedi cydnabod bod angen iddynt gael dealltwriaeth ar y cyd ynglŷn â pha elfennau diogelu yr oeddynt yn atebol amdanynt, ond canfu’r arolygwyr nad oedd yr holl aelodau yn gallu nodi beth oedd cyfeiriad strategol eu Bwrdd. Yn anaml iawn yr oedd profiad unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol y Bwrdd. Mewn nifer o achosion, nid oedd y BLlDP wedi glynu at yr amcanion a nodwyd oherwydd bod materion eraill megis adolygiadau achos difrifol, newidiadau mewn personél a ffurf y Bwrdd yn cystadlu am sylw.  Roedd ystod sylweddol o waith arloesol yn cael ei wneud ynglŷn â gwahanol grwpiau o blant sy’n agored i niwed ond roedd llawer o’r gwaith hwn yn ymddangos yn adweithiol.  Roedd y partneriaid yn ei chael yn anodd rhoi disgrifiad cyson ynglŷn â pha grwpiau o blant a phobl ifanc yr oedd y BLlDP yn gyfrifol amdanynt, ac roedd diffyg eglurder ynglŷn â’r canlyniadau yr oeddynt yn gobeithio eu cyflawni er mwyn gwella ansawdd diogelu i grwpiau penodol o blant.

3.3 Roedd yn amlwg bod yr ethos gwaith partneriaeth yn gryf ar draws y BLlDPau ond canfu’r arolygwyr fod y rhan fwyaf o’r asiantaethau yn ystyried mai cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol oedd y BLlDP. Mater a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd bod angen i’r Bwrdd dderbyn sicrwydd bod gan yr asiantaethau sy’n aelodau ohono ddealltwriaeth drefniadaethol o’u cyfrifoldebau a’u swyddogaeth wrth eu cyflawni. Yn aml, canfuwyd bod yr asiantaethau a oedd yn aelodau o’r BLlDP yn uniaethu â blaenoriaethau eu hasiantaethau eu hunain, gan gyfrannu gwaith yr asiantaeth ar amddiffyn plant tuag at amcanion cyffredinol y BLlDP yn hytrach na gweithio tuag at gyfeiriad strategol cyffredin y BLlDP. Roedd diffyg eglurder y Bwrdd o ran ei amcanion a’i ganlyniadau yn ei gwneud yn anodd i’r BLlDPau ddangos eu bod yn dwyn eu partneriaid statudol i gyfrif yn effeithiol. Yn gyffredinol, nododd yr aelodau fod y BLlDPau yn hybu ymddiriedaeth broffesiynol yn effeithiol rhwng unigolion, sy’n eu galluogi i symud materion gweithredol i fyny’r

ysgol a'u datrys. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae BLlDPau yn dibynnu ar asiantaethau unigol i gyflwyno adroddiadau a gwerthuso eu perfformiad eu hunain. Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd i ddangos bod gweithgarwch yr asiantaethau yn cael ei herio neu ei archwilio'n fanwl. Roedd y rhan fwyaf o'r Byrddau yn ystyried hyn yn rhywbeth yr oeddynt yn gweithio arno, ond ni theimlwyd fawr o hyder bod gan y BLlDPau unrhyw allu gwirioneddol i ddwyn yr asiantaethau sy'n aelodau ohonynt i gyfrif.

3.4 Roedd y rhan fwyaf o'r Byrddau wedi cynnal diwrnodau datblygu gyda phartneriaethau strategol eraill i benderfynu ar linellau cyfathrebu ac atebolrwydd ynglŷn â blaenoriaethau diogelu. Mae'r BLlDP wedi bod yn sbardun i hybu'r gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, canfu'r arolygwyr nad oedd aelodau'r gwahanol bartneriaethau yn deall y rhyngberthynas strategol yn eglur e.e. nid oedd rhai partneriaethau yn cydnabod bod eu gwaith yn cefnogi'r agenda ddiogelu ehangach. Roedd rhai partneriaethau wedi datblygu cysylltiadau cyfathrebu rhwng y gwahanol grwpiau partneriaeth, ond roedd y rhain yn dibynnu i raddau helaeth ar y ffaith fod unigolion yn aelodau o fwy nag un grŵp partneriaeth. Roedd rhai Byrddau wedi ceisio ffurfioli hyn ymhellach, ac wedi trafod a chytuno ar drefniadau adrodd, neu wedi dewis aelodau penodol yn hyrwyddwyr diogelu.

**Sefydlu Cyfeiriad Strategol**

**Arfer da**:

**Gweithio ar draws Partneriaethau**

- Roedd cyfarfodydd misol rhwng Cadeiryddion y partneriaethau yng Nghaerffili wedi cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth a gwaith ar y cyd.

**Gweithio gyda grwpiau penodol**

- Roedd Bwrdd Diogelu Plant Caerffili wedi datblygu canllaw i gadw

plant yn ddiogel pan fyddant yn defnyddio technoleg

- Roedd Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd wedi hybu menter amlasiantaeth “Think Family”

**4. Sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol**

4.1 Roedd gan y BLlDPau gylch gorchwyl, a threfniadau wedi eu sefydlu i lywodraethu eu gweithrediad. Yn ymarferol, nid oedd asiantaethau partner unigol yn deall yn eglur beth yr oedd hyn yn ei olygu. Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd ynglŷn â sut yr oedd hunaniaeth annibynnol y BLlDP wedi ei sefydlu a sut y câi ei adnabod yn eang. Roedd dibyniaeth gref ar ymrwymiad gan unigolion yn hytrach nag ar lefel asiantaeth a lefel y Bwrdd. Nid oedd y systemau i sicrhau arfer amlddisgyblaethol wedi eu datblygu’n dda. Ychydig o dystiolaeth a welwyd bod y BLlDPau yn gofalu bod asiantaethau partner yn dilyn arferion recriwtio diogel. Roedd llawer o amser ac adnoddau yn cael eu rhoi i gynnal adolygiadau achos difrifol ac ymateb iddynt, ond yn gyffredinol, nid oedd y BLlDPau yn gallu dangos tystiolaeth ynglŷn â sut yr oedd eu gweithredoedd mewn ymateb i adolygiadau achosion difrifol wedi gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Pan oedd BLlDPau wedi penodi rheolwr busnes, roedd hyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol at wella gweithrediad cyffredinol y BLlDP.

4.2 Ychydig iawn o dystiolaeth a welodd yr arolygwyr i ddangos bod gan y Byrddau hunaniaeth annibynnol ac unigol, yn rhannol oherwydd bod yr aelodau’n newid yn aml a bod ymrwymiad yr asiantaethau, o ran anfon aelodau i gyfarfodydd y Bwrdd, yn anghyson. Roedd gallu’r aelodau i neilltuo amser ac adnoddau i waith y Bwrdd weithiau’n fater o gydbwyso’r galw gan dasgau a blaenoriaethau eu hasiantaeth eu hunain. Nid oedd meini prawf eglur wedi eu gosod, o ran gwybodaeth

na phrofiad, ar gyfer y rhan fwyaf o'r Byrddau ac nid oedd holl aelodau'r Bwrdd yn deall yn eglur pa elfennau o ddiogelu yr oeddynt yn gyfrifol amdanynt. Roedd rhai disgrifiadau swydd a disgrifiadau swyddogaeth wedi eu datblygu ond nid oedd yn eglur a weithredir y rhain ac a ydynt yn cael eu hadolygu neu eu gwerthuso ym mhob Bwrdd. Roedd aelodaeth y rhan fwyaf o'r Byrddau yn cydymffurfio â'r rheoliadau a nodir yn *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* ond roedd yn amrywio yn ddibynnol ar newidiadau ymhlith y staff.

4.3 Roedd nifer o BLlDPau yn ei chael yn anodd dangos sut yr oeddynt yn sicrhau bod asiantaethau unigol yn atebol am unrhyw beth heblaw mynychu cyfarfodydd. Roedd diffyg cynllunio busnes eglur, yn gyffredinol, yn yr holl Fyrddau ac ychydig o bwyslais a roddid ar feincnodi er mwyn mesur effeithiolrwydd cyffredinol. Nid oedd amcanion a blaenoriaethau, na'r dulliau o fesur allbwn neu ganlyniadau, bob amser yn eglur nac yn amlwg. Roedd Byrddau'n dibynnu i raddau helaeth ar ymrwymiad unigolion i sbarduno darnau o waith yn eu blaenau mewn rhai achosion, yn hytrach na bod y Bwrdd yn gosod amcanion wedi eu diffinio'n eglur. Pan oedd personél allweddol yn aelodau o bartneriaethau gwahanol, gwelwyd tystiolaeth bod cyrff partneriaeth yn rhannu syniadau a mentrau polisi yn dda, ond nid oedd y Bwrdd yn sbarduno hyn bob amser er mwyn sicrhau bod y trefniadau cyfathrebu'n cael eu ffurfioli. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y rhan fwyaf o'r Byrddau bellach wedi cyflwyno archwiliad o ddyletswyddau'r asiantaethau sy'n aelodau ohonynt dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004, ond nid oedd y BLlDPau eu hunain yn gwneud fawr o waith i archwilio ansawdd neu gywirdeb yr archwiliadau Adran 28.

4.4 Roedd pob BLlDP wedi sefydlu is-grŵp archwilio i ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag arferion rheng flaen i'r BLlDP. Roedd y BLlDPau yn ystyried bod archwilio achosion yn fodd o weld beth yw'r sefyllfa o ran arferion gwaith, ac o sicrhau ansawdd. Canfu'r arolygwyr fod ffurf yr is-grwpiau hyn yn amrywio ymhlith y BLlDPau ac, yn gyffredinol, nid

oedd y broses archwilio yn ddigon eglur a thrylwyr. Roedd yr is-grwpiau archwilio yn ei chael yn anodd nodi dull neu broses archwilio gyson a oedd yn darparu'r ystod o wybodaeth yr oedd arnynt ei hangen. Prosesau a oedd yn sbarduno rhai archwiliadau, ac nid oedd profiadau'r plentyn a'r teulu wedi eu cynnwys. Roedd yr arolygwyr yn pryderu'n benodol am yr ansawdd, ac mewn rhai achosion am nifer yr archwiliadau achos yr oedd is-grwpiau'r holl BLlDPau yn eu cynnal. Prin iawn yr oedd y gwaith hwn yn cynnwys cynrychiolaeth lawn o'r holl asiantaethau. Nid oedd yn ddigon trylwyr, ac ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd y câi ei herio o'r tu mewn i'r BLlDP. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn tueddu i aros yn yr is-grwpiau oherwydd y diffyg ymwneud â'r staff rheng flaen. Gwelwyd diffyg ymrwymiad gan yr asiantaethau i waith y BLlDP ar y cyd fel corff annibynnol.

4.5 Roedd presenoldeb yn yr is-grwpiau yn anghyson ac nid oedd yr holl asiantaethau wedi eu cynrychioli'n dda. Nid oedd yr asiantaethau a oedd yn cymryd rhan yn yr archwiliad bob amser yr un rhai â'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu. Roedd asiantaethau yn cael eu heithrio o'r broses archwilio yn gyffredinol oherwydd cyfansoddiad y grŵp archwilio sefydlog neu ddiffyg dealltwriaeth ynglŷn â chyfranogiad yr asiantaeth. Roedd yr arolygwyr yn synnu nad oedd asiantaethau perthnasol na'r BLlDP wedi herio hyn pan gyflwynwyd canlyniadau'r archwiliadau i'r Bwrdd. Nid oedd cylch gorchwyl yr archwiliadau bob amser yn eglur, ac roedd y rhan fwyaf yn pwysleisio prosesau a chydymffurfiad yn hytrach na'r canlyniad ar gyfer y plentyn. Nid oedd yr argymhellion i'r Bwrdd bob amser wedi eu seilio ar ddealltwriaeth eglur o brofiad y plentyn. Ychydig o'r Byrddau a oedd wedi datblygu systemau adborth i gynorthwyo'r staff rheng flaen i ddysgu, ond roedd rhai Byrddau wedi sefydlu cysylltiadau rhwng yr is-grŵp archwilio a'r is-grŵp hyfforddi.

4.6 Yn gyffredinol, ychydig o systemau a oedd wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau y câi arfer amlasiantaeth / amlddisgyblaethol ei lywodraethu. Yn

anaml yr oedd asiantaethau yn eu herio'i gilydd ynglŷn ag arfer a dysgu gwersi. Pan nodwyd gwelliannau mewn arferion, nid oedd bob amser yn eglur bod pob asiantaeth wedi dilysu'r rhain, eu gweithredu neu eu hadolygu i weld a ydynt yn effeithiol. Roedd archwiliadau achos yn aml yn tueddu i bwysleisio gweithredoedd ac arferion asiantaeth unigol ac nid oeddynt yn gallu disgrifio'r broses o asesu a gwella arfer amlasiantaeth. Roedd rhai Byrddau wedi cynnal cynadleddau hyfforddi a chynadleddau blynyddol amlasiantaeth, ac roedd dau Fwrdd wedi datblygu fforymau amddiffyn plant amlasiantaeth ar gyfer staff rheng flaen. Nid oedd y Byrddau'n monitro effaith yr hyfforddiant ar arfer ac atebolrwydd amlasiantaeth.

**Sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol**

**Arfer da:**

**Llywodraethu**

- Roedd y ffaith y datblygwyd strategaeth hunanladdiad wedi cynorthwyo i sicrhau trefniadau goruchwyliaeth ac ymateb cyflym yn sgil marwolaeth annisgwyl person ifanc. (Rhondda Cynon Taf)

- Nodwyd arfer arloesol mewn gwaith a wnaed gan yr heddlu i godi ymwybyddiaeth am y BLlDP ac unedau amddiffyn y cyhoedd, gan roi manylion am eu swyddogaeth, eu pwrpas a'u cyfrifoldebau.(Castell-nedd Port Talbot)

**Cydweithio**

- Mae BLlDP Caerffili yn rhan o grŵp diogelu rhanbarthol de-ddwyrain Cymru. Roedd gan y grŵp hwn swyddogaeth gyffredinol i ledaenu arfer da yn dilyn adolygiadau achosion difrifol, ac i wella arfer diogelu rhanbarthol.

## 5 Cynyddu gallu

5.1 Heblaw am gadeirio cyfarfodydd, yn anaml iawn y mae swyddogaeth a chyfrifoldeb cadeirydd y BLlDP yn eglur na'n gyson. Roedd yr holl BLlDPau wedi sefydlu is-grwpiau, ond heblaw am yr is-grwpiau hyfforddi, nid oedd eu heffeithiolrwydd yn eglur. Ychydig iawn o gytundeb a gafwyd yn y rhan fwyaf o'r Byrddau ynglŷn â'r fformiwla ariannu sydd ei hangen i gefnogi gwaith a datblygiad y Bwrdd. Nid oedd cysondeb yn y trefniadau i ariannu BLlDPau ac mewn rhai achosion, ychydig iawn o ddilyniant a gafwyd o un flwyddyn i'r llall. Mewn rhai BLlDPau, roedd wedi bod yn amhosibl dod i gytundeb ynglŷn â'r cyfraniad y dylai pob asiantaeth ei wneud, ac mewn rhai eraill nid oedd rhai asiantaethau wedi cael cais am gyfraniad hyd yn oed. Mewn llawer, yr awdurdod lleol a oedd yn cyfrannu un ai'r gyllideb i gyd neu'r rhan fwyaf ohoni ar gyfer gweithredu'r Bwrdd. O ystyried ers faint y mae'r BLlDPau wedi bodoli, roedd diffyg ymrwymiad ar y cyd gan bartneriaid statudol i'w gweithredu'n effeithiol. O ganlyniad, nid oedd y Byrddau yn aml yn gallu dangos gwerth am arian na nodi eu gwir gost er mwyn gallu nodi anghenion ariannu cyfredol ac ar gyfer y dyfodol. Pan oedd y Bwrdd wedi penodi rheolwyr busnes, roedd yr adnoddau'n cael eu cyfeirio at weithgareddau a oedd yn cefnogi blaenoriaethau'r Bwrdd.

5.2 Roedd yr aelodau'n gyffredinol yn nodi mai prif swyddogaeth y cadeirydd oedd cadeirio cyfarfodydd y BLlDP, heb gyfeirio at fawr ddim arall. Yn aml iawn, nid oedd elfennau arweinyddiaeth y swyddogaeth neu gyfrifoldeb y swyddogaeth hon i gyflwyno adroddiadau i bartneriaethau eraill a gweithio gyda hwy yn eglur o gwbl. Er bod aelodau'r Byrddau yn cefnogi'r cadeiryddion, nid oeddent yn deall sut i'w herio pe byddai angen yn codi na pha gamau y gallent eu cymryd i ddatrys unrhyw anawsterau, er enghraifft os oeddynt yn ystyried bod gwrthdaro rhwng buddiannau. Mewn llawer o achosion, nid oedd trefniadau adrodd ar gyfer y cadeiryddion wedi eu hawdurdodi na'u cymeradwyo'n swyddogol gan y Bwrdd. Pan oedd y cadeirydd yn gweithio i'r awdurdod lleol, roedd yn tueddu i adrodd i brif weithredwr yr awdurdod lleol, ond yn ei

swyddogaeth fel uwch swyddog i'r awdurdod lleol ac nid yn benodol fel cadeirydd y BLlDP. Canfu'r arolygwyr bod cryfder yr arweinyddiaeth, ac yn benodol effeithiolrwydd y cadeirydd a'i is-gadeirydd, yn allweddol i sicrhau bod y BLlDP yn glynu at ei amcanion penodedig, heb i bethau eraill dynnu ei sylw. Roedd rhai o'r Byrddau mwy hyderus yn cael eu cadeirio gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac roedd yn aelodau'r Bwrdd yn ei barchu ac yn ystyried bod ganddo brofiad perthnasol a'r awdurdod angenrheidiol. Nid oedd swyddogaeth yr is-gadeirydd wedi ei ddatblygu cystal, ac nid oedd yn rhoi blaenoriaeth i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd mewn rhai ardaloedd. Cafodd rhai BLlDPau anhawster wrth recriwtio aelodau i gymryd swyddogaethau allweddol megis yr is-gadeirydd, a gellid gweld bod yr amharodrwydd hwn yn atgyfnerthu'r farn mai cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf yw'r BLlDP.

5.3 Roedd amrywiaeth sylweddol yn y trefniadau adrodd ar gyfer y Bwrdd ei hun, rhwng ardaloedd Cymru. Roedd rhai BLlDPau yn disgwyl yn bendant y byddent yn cyflwyno adroddiadau am eu gwaith neu destun unrhyw anghydfod sylweddol i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ond roedd eraill yn cyflwyno adroddiadau i wahanol bartneriaethau, megis y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Mewn rhai ardaloedd, roedd adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Roedd y trefniadau adrodd hefyd yn aneglur rhwng y gwahanol bartneriaethau strategol er enghraifft y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Cydnabyddid ar y cyfan bod cael aelodau cyffredin yn y gwahanol bartneriaethau yn cynorthwyo i wella trefniadau cyfathrebu a chynllunio. Roedd cael aelodau cyffredin hefyd o gymorth i gydgysylltu blaenoriaethau i ryw raddau, gyda phartneriaethau eraill weithiau'n arwain agweddau helaeth ar y cynllun cyffredinol.

5.4 Roedd y rhan fwyaf o'r Byrddau wedi sefydlu is-grwpiau i gyflawni amcanion penodol y BLlDPau, ac mewn rhai achosion, roedd y rhain yn

gweithio'n effeithiol iawn.  Roedd yr is-grwpiau mwyaf effeithiol yn amlwg yn atebol i'w Bwrdd, ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ymrwymiad a ddangosid gan yr asiantaethau sy'n aelodau ohonynt. Roedd yn ymddangos bod gan rai Byrddau ystod eang o wahanol is-grwpiau a oedd yn ychwanegu haenau o fiwrocratiaeth. Roedd hyn weithiau'n gwanhau'r cyfrifoldeb am fesur effaith ar ganlyniadau. Hefyd, roedd llawer o'r is-grwpiau hyn yn cael eu cadeirio gan swyddogion y gwasanaethau cymdeithasol lleol i blant ac nid oedd yn ymddangos bod asiantaethau eraill yn cymryd y prif gyfrifoldeb. Roedd hyn yn atgyfnerthu'r farn mai swyddogaeth ar gyfer yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf yw amddiffyn plant.

**Cynyddu Gallu**

**Arfer da:**

- Mae Bwrdd Diogelu Plant Powys wedi datblygu cynllun atal hunanladdiad sy'n cynnwys cartrefi plant ac ysgolion preswyl i hybu gwaith diogelu.
- Roedd Bwrdd Diogelu Plant Powys yn gweithio tuag at sefydlu fforymau ymarferwyr amddiffyn plant i gefnogi arfer trwy'r awdurdod.
- Roedd Bwrdd Diogelu Plant Rhondda Cynon Taf wedi sefydlu fforymau ymarferwyr i gefnogi'r broses o ledaenu gwybodaeth trwy'r awdurdod.
- Roedd Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd wedi sicrhau arian gan Cymorth i hybu gwaith diogelu ac i sicrhau bod cymunedau'n ymwybodol o swyddogaethau'r BLlDP.
- Roedd Bwrdd Diogelu Plant Wrecsam wedi llwyddo i drafod a chytuno ar fformiwla ariannu i ddarparu'r staff a'r adnoddau angenrheidiol i ddatblygu blaenoriaethau'r cynllun busnes. Er enghraifft, mae swyddog hyfforddi penodedig yn cael ei ariannu drwy'r fformiwla a'i gyfarwyddo gan y BLlDP. Nid yw'r fformiwla yn talu am holl gostau gwaith y BLlDP ond mae'n ddigon i reoli ei weithgareddau craidd.
- Roedd Bwrdd Diogelu Plant Castell-nedd Port Talbot wedi cytuno ar fformiwla ariannu i sicrhau'r adnoddau angenrheidiol er mwyn bodloni ei flaenoriaethau. Roedd y fformiwla hon yn gytundeb aeddfed a oedd wedi ei sefydlu ers nifer o flynyddoedd.
- Roedd Bwrdd Diogelu Plant Rhondda Cynon Taf wedi sefydlu cysylltiadau defnyddiol gyda BLlDP arall i weithio ar y cyd ar ddatblygu protocolau a gweithdrefnau a hybu cysondeb wrth ddarparu hyfforddiant.

**6. Cyflawni allbwn**

6.1 Yn y rhan fwyaf o'r BLlDPau a arolygwyd, ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd i ddangos bod y Byrddau yn ymgysylltu'n weithredol â phlant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr wrth ddatblygu ac adolygu eu gwaith. Nid oedd y broses o ymgysylltu â'r gymuned ehangach ychwaith wedi'i datblygu'n helaeth. Roedd gan yr holl BLlDPau raglenni sylweddol o hyfforddiant cyffredinol amlasiantaeth sylweddol ynglŷn â diogelu ac amddiffyn plant, ac fe'u darperir i lawer iawn o'r staff. Fodd bynnag, yn anaml iawn yr oedd hyn wedi ei seilio ar asesiad o'r hyfforddiant yr oedd ar y gwahanol asiantaethau ei angen, ac nid oedd effaith yr hyfforddiant wedi ei werthuso hyd yn hyn. Nid oedd yn eglur sut y mae BLlDPau yn hwyluso ac yn hybu adborth yn effeithiol i'r staff rheng flaen ac oddi wrthynt.

6.2 Cyfyngedig oedd yr ymgynghori gweithredol â'r plant a'r bobl ifanc yn gyffredinol ar draws y BLlDPau a adolygwyd, a gwnaed hyd yn oed llai o waith i gynnwys ac ymgynghori â'u rhieni/gofalwyr. Roedd rhai Byrddau wedi gwneud ymdrechion sylweddol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc trwy gefnogi grwpiau a oedd eisoes yn bodoli, datblygu fformatau digidol i gynnwys pobl ifanc ac i rannu eu profiadau ag ystod o weithwyr proffesiynol. Mewn rhai achosion, nid oedd hyn wedi ei werthuso hyd yn hyn ac nid oedd effaith yr ymgysylltiad hwn wedi ei asesu. Roedd rhai BLlDPau wedi sefydlu trefniadau ffurfiol gyda phobl ifanc ac mewn un achos, roedd BLlDP i bobl ifanc wedi ei sefydlu. Roedd rhai eraill wedi ceisio cael gwybod beth yw safbwyntiau pobl ifanc trwy gynadleddau blynyddol a digwyddiadau eraill pan nodwyd materion penodol a'u datblygu gyda phobl ifanc ac ar eu cyfer.

6.3 Gwelwyd rhai enghreifftiau da o gyfleoedd hyfforddi unigol ac amlasiantaeth mewn llawer o Fyrddau. Nododd aelodau'r BLlDPau fod hyn yn bwysig ac yn faes cryfder yr oedd y staff a'r rheolwyr yn ei werthfawrogi. Roedd ymrwymiad parhaus yn y Byrddau i gefnogi

hyfforddiant ac annog y staff a'r rheolwyr i fanteisio arno. Gwelwyd enghreifftiau hefyd o Fyrddau'n sicrhau bod hyfforddiant ar gael i asiantaethau trydydd sector, grwpiau ffydd a grwpiau cymunedol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid oedd yr effaith ar arferion gwaith wedi ei hadolygu na'i harchwilio. Ychydig o dystiolaeth a welwyd bod anghenion hyfforddi yn cael eu hasesu a'u gwerthuso, ac roedd hyn yn cyfyngu ar waith y Bwrdd i gynllunio'n strategol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad y gweithlu yn yr asiantaethau sy'n aelodau ohono.

6.4 Ychydig iawn o dystiolaeth a welodd yr arolygwyr i ddangos bod y BLlDPau yn cyfathrebu â'r cyhoedd am eu gwaith. Nifer fechan iawn o ymgyrchoedd penodol a gynhaliwyd i nodi ac amddiffyn grwpiau sy'n agored i niwed trwy eu hysbysu am flaenoriaethau a disgrifio pa gamau y gallai'r cyhoedd eu cymryd i gefnogi'r BLlDP i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn fwy diogel. Roedd gwefannau'r Byrddau i hysbysu'r cyhoedd yn amrywio'n sylweddol yn yr ardaloedd gwahanol ac ychydig iawn o wybodaeth yn yr iaith Gymraeg a oedd ar gael ar rai gwefannau. Roedd y wybodaeth yn cyfeirio at ddyletswyddau statudol gan amlaf, ac ni roddid gwybodaeth benodol i godi ymwybyddiaeth am y Bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono a phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Roedd y gwefannau weithiau yn cael eu gwe-letya gan wefan yr awdurdod lleol sy'n bychanu'r syniad bod gan y Byrddau hunaniaeth ar wahân.

6.5 Gwelwyd rhai enghreifftiau cyfyngedig o Fyrddau yn cymryd camau gweithredol i hybu adborth i staff rheng flaen a chanddynt ynglŷn â pholisïau ac arfer diogelu. Roedd y rhan fwyaf o'r BLlDPau yn cynnal cynhadledd flynyddol ynglŷn â phynciau penodol ac mewn rhai ardaloedd, roedd y BLlDPau wedi cefnogi datblygiad fforymau staff i ategu arfer lleol. O bryd i'w gilydd, roedd presenoldeb rhai asiantaethau mewn cynadleddau a chyrsiau hyfforddiant yn siomedig, o bosibl oherwydd pwysau gwaith rhai o'r staff. Canfu'r arolygwyr ychydig iawn o dystiolaeth i ddangos bod y Byrddau'n ymwybodol o ansawdd yr arfer yn

yr asiantaethau sy’n aelodau ohonynt, heblaw mewn achosion pan nad oedd y canlyniadau wedi bod yn ddiogel a’r gwaith wedi bod yn destun adolygiad. Rhoddodd y Byrddau fanylion ynglŷn â sut yr oeddynt yn derbyn adroddiadau rheolaidd; ond roedd y rhain yn dibynnu’n helaeth ar ddata o ffynonellau cyfyngedig a pheth gweithgaredd archwilio a oedd yn adrodd yn bennaf ar brosesau. Nid oedd y Byrddau yn gallu darparu tystiolaeth bod ganddynt systemau effeithiol i fonitro a gwella ansawdd yr arfer diogelu o ganlyniad i’r adroddiadau yr oeddent yn eu derbyn. Daeth yr arolygwyr i’r casgliad nad oedd y Byrddau yn gwbl ymwybodol o’r sefyllfa o ran arferion gwaith yn gyffredinol, a bod y ffaith nad yw ymarferwyr rheng flaen yn ymgysylltu â gweithgareddau’r Bwrdd, gan gynnwys archwilio, yn gwneud y sefyllfa hon yn waeth.

**Cyflawni Allbwn**

**Arfer Da :**

**Ymgysylltu â Phlant**

- Mae “BLlDP Iau” wedi ei sefydlu’n dda ym Mhowys ac mae’n gallu dangos iddo ddylanwadu rhywfaint ar flaenoriaethau’r BLlDP.

**Hybu’r broses ddysgu**

- Roedd cadeirydd is-grŵp hyfforddi Bwrdd Diogelu Plant Caerffili wedi darparu tri gweithdy ar y cyd â chydgysylltydd Trefniadau Amlasiantaeth Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) ac aelodau’r BLlDP. Roedd tua 300 o ymarferwyr a rheolwyr wedi elwa o’r cyfraniad hwn.

**Hybu gwaith diogelu ar draws y gymuned**

- Trwy ei gysylltiadau â’r Rhwydwaith Rhieni roedd Bwrdd Diogelu Plant Caerffili wedi dosbarthu holiadur ynglŷn â chadw plant yn ddiogel ymhlith rhieni a gofalwyr lleol. Cynorthwyodd yr ymatebion i lywio’r ymgyrch diogelwch technoleg gan gynnwys taflen wybodaeth ar gyfer

rhieni a gofalwyr.

- O ganlyniad i ymholiad ac am fod y cyhoedd wedi gwneud cais, roedd Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd wedi darparu sesiwn i grŵp ffydd yn y ddinas i godi ymwybyddiaeth o waith diogelu. Arweiniwyd y tîm hyfforddi amlasiantaeth gan gydgysylltydd y BLlDP ac roedd ystod o weithwyr ac arweinwyr cymuned yn bresennol yn y sesiwn. Sefydlwyd cysylltiadau gwerthfawr o fewn y gymuned a diweddarwyd y gweithdrefnau amddiffyn plant. Roedd hyfforddiant diogelu dilynol wedi ei gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Darparodd Bwrdd Diogelu Plant Rhondda Cynon Taf chwe sesiwn adborth i 350 o staff ac ymarferwyr lleol ar ôl cynnal adolygiad achos difrifol. Y bwriad oedd sicrhau bod y “gwersi a ddysgwyd” yn cael eu lledaenu a'u deall gan ymarferwyr yn yr holl asiantaethau. Cynorthwyodd aelodau o'r panel adolygiad achos difrifol perthnasol i ddarparu'r sesiynau a chafwyd derbyniad da iddynt.
- Mabwysiadodd Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro brosiect cadw'n ddiogel. Gyda chymorth Gweithredu dros Blant, cynhyrchodd grŵp o bobl ifanc ag anableddau dysgu DVD ‘Stay Safe’ sy'n rhoi cyngor ynglŷn â materion megis bwlio, ymdrin ag arian a chludiant. Darparwyd y negeseuon trwy stori wedi ei hanimeiddio, gyda chymorth grŵp o blant ag anableddau dysgu.
- Gwahoddwyd Gwasanaeth Erlyn y Goron i eistedd ar Fwrdd Diogelu Plant Castell-nedd Port Talbot, er mwyn cynorthwyo â'r trefniadau cyfathrebu a dod i ddeall cymhlethdodau cyflwyno erlyniad mewn rhai achosion amddiffyn plant.
- Roedd Bwrdd Diogelu Plant Castell-nedd Port Talbot wedi nodi ac ymateb yn weithredol i'r broblem o bobl ifanc yn defnyddio cyffur rheoledig yn amhriodol mewn ardal leol. Tynnwyd sylw'r BLlDP at hyn gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a sefydlwyd canolfan rhannu gwybodaeth er mwyn gallu cydgysylltu'r camau gweithredu.
- Mae Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol haen 1 ar amddiffyn plant i nifer o staff ar draws yr asiantaethau.

- Mae Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro wedi cyflwyno 10,000 o ‘gardiau diogelu’ gyda manylion cyswllt amddiffyn plant arnynt i asiantaethau, fel modd ymarferol o hybu gwaith diogelu.

# Atodiad Un

## Fframwaith polisi a deddfwriaeth

Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddeddfwriaeth a chanllawiau newydd i ddiogelu ac amddiffyn plant yn dilyn ymchwiliad Victoria Climbié. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'r asiantaethau a'r Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru wedi eu nodi yn y canllawiau – Diogelu Plant – Gweithio Gyda'n Gilydd o Dan Ddeddf Plant, 2004.

Mae lles plant a phobl ifanc wrth wraidd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a'u teuluoedd fel y'u cofnodir yn Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau (2004).

**Deddf Plant 2004**

Mae **Adran 25**
yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, partneriaid perthnasol a chyrff eraill y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn briodol i gydweithredu i wella lles plant a phobl ifanc.

Mae **Adran 26**

yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi eu strategaeth ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc. Rhaid i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc gynnwys y trefniadau ar gyfer cydweithredu sy'n ofynnol dan adran 25 a rhaid iddo fod yn gyson â chynlluniau strategol partneriaid lleol sydd wedi eu cynnwys gan y ddyletswydd honno. Rhaid paratoi'r cynllun gan ymgynghori â phlant, pobl ifanc, gofalwyr a theuluoedd a'r holl sefydliadau lleol perthnasol gan gynnwys y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

Mae **Adran 28**
yn gosod dyletswyddau ar asiantaethau penodol i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau gan ystyried bod angen diogelu a hybu lles plant.

Mae **Adran 31(1)**
yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer ei ardal

Amcan Bwrdd Lleol Diogelu Plant a sefydlir dan adran 31 yw-

*(a)* *cydgysylltu'r hyn a wneir gan bob unigolyn neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd at ddibenion diogelu a hybu lles plant yn ardal yr awdurdod y'i sefydlwyd ganddo; a*

*(b)* *sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan bob unigolyn neu gorff o'r fath at y dibenion hynny.*

Mae *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004,* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2006 yn rhoi manylion swyddogaeth yr aelodau, cwmpas a phwrpas y Byrddau Lleol Diogelu Plant. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r berthynas rhwng:

**Amddiffyn plant a'r agenda ddiogelu ehangach**

- *Mae sicrhau bod polisïau ac arferion gwaith effeithiol yn eu lle i amddiffyn plant a'u bod wedi'u cydgysylltu'n briodol yn parhau'n swyddogaeth allweddol i'r Byrddau Diogelu. Dim ond pan fydd y rhain yn eu lle y dylai'r Byrddau edrych ar eu cylch gorchwyl ehangach o ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn. (adran 4.16)*

**Atebolrwydd y BLlDP a'r asiantaethau unigol sy'n aelodau ohono**

- *Er bod swyddogaeth i'r BLlDP yn y gwaith o gydgysylltu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith unigolion a sefydliadau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, nid yw'n atebol am eu gweithgaredd. Mae pob partner Bwrdd yn cadw ei linellau atebolrwydd ei hun er diogelu a hyrwyddo lles plant o fewn eu gwasanaethau. Nid oes grym gan y BLlDP i gyfarwyddo sefydliadau eraill. (adran 4.25)*

**Perthynas y BLlDP â phartneriaethau eraill**

- *Mae'n bwysig i bob BLlDP ymarfer ei swyddogaeth statudol unigryw yn effeithiol. Rhaid iddynt allu ffurfio safbwynt am ansawdd gweithgaredd lleol, herio sefydliadau fel y bo angen, a siarad â llais annibynnol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn bosibl, dylai'r BLlDP fod â hunaniaeth glir ac unigryw. Ni ddylai'r BLlDP fod yn israddol i, neu wedi'i gynnwys oddi mewn i drefniadau partneriaeth yn lleol mewn ffordd a allai gyfaddawdu ei hunaniaeth neilltuol a'i lais annibynnol. Dylai'r partneriaethau ymgynghori â'r BLlDP ar faterion sy'n effeithio ar y modd y caiff plant eu diogelu a sut yr hyrwyddir eu lles. Ymgynghorir yn ffurfiol â'r BLlDP wrth ddatblygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (adran 5.5)*

Mae **Adran 30**

yn nodi'r trefniadau ar gyfer arolygu'r swyddogaethau dan ran 3 o'r Ddeddf. Mae AGGCC yn arwain y gwaith gydag arolygiaethau a chyrff rheoleiddio eraill gan gynnwys Estyn, AGIC, Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi i sicrhau y cyd-gysylltir arolygiadau'n effeithiol, i ddatblygu protocolau ac i gynllunio gwaith i arolygu a gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y Partneriaethau.